PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Ordinhad 30

# Archwilio a Risg

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 25 Tachwedd 2024 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Swyddog Contractau |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiwyd |
| **Fersiwn:** | 1.1 |
| **Dyddiad adolygu:** | Hydref 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Hydref 2026 |

**Ordinhad 30**
**Archwilio a Risg**

1. Bydd y Cyngor yn sefydlu pwyllgor i ymdrin ag archwilio a risg, a bydd yn cytuno ar y canlynol:

   - y weithdrefn ar gyfer penodi'r archwilwyr mewnol ac allanol;
   - cyfnodau yn y swydd, swyddogaethau a thâl yr archwilwyr mewnol ac allanol;
   - cyfansoddiad a swyddogaethau pwyllgor archwilio a risg.

2. Ni chaiff unrhyw un sy’n aelod o'r Cyngor, y Llys neu staff Prifysgol Bangor ei benodi'n archwiliwr, nac unrhyw un y mae eu partner yn aelod o’r Cyngor, y Llys neu staff Prifysgol Bangor.

3. Penodir yr archwilwyr mewnol ac allanol yn flynyddol gan y Cyngor, gan dderbyn y cyfryw dâl a bennir gan y Cyngor a byddant yn gymwys i'w hailbenodi.

4. Gellir diswyddo'r archwilwyr mewnol ac allanol ar unrhyw adeg trwy benderfyniad arbennig y Cyngor os nodir diffygion difrifol ar ran yr archwilwyr. Bydd gan unrhyw archwiliwr neu archwilwyr sy'n wynebu cael eu diswyddo hawl i gyflwyno sylwadau naill ai'n ysgrifenedig, neu yn y cnawd, i'r Cyngor cyn i'r penderfyniad i ddiswyddo gael ei wneud.

5. Bydd gan yr archwilwyr mewnol ac allanol hawl mynediad i lyfrau, cofnodion, cyfrifon a thalebau Prifysgol Bangor ar bob adeg resymol a bydd ganddynt hawl i fynnu gan swyddogion Prifysgol Bangor unrhyw wybodaeth ac esboniadau angenrheidiol yn ymwneud â chyflawni eu dyletswyddau.

6. Os daw swydd yr archwiliwr neu'r archwilwyr yn wag trwy farwolaeth neu ymddiswyddiad neu unrhyw achos arall cyn diwedd eu cyfnod yn y swydd, bydd y Cyngor yn penodi archwiliwr yn eu lle ar unwaith am weddill y cyfnod hwnnw.

7. Bydd yr archwilwyr mewnol ac allanol yn darparu adroddiad i'r Cyngor unwaith y flwyddyn.

8. Gall archwilwyr mewnol ac allanol ymddiswyddo trwy rybudd ysgrifenedig a gyfeirir at Ysgrifennydd y Brifysgol. Bydd y cyfnod rhybudd gofynnol wedi ei bennu o fewn telerau unigol y cytundeb rhwng y brifysgol a'r archwilydd perthnasol.

9. Pwyllgor Archwilio a Risg

   a) Bydd y pwyllgor yn cyfarfod pob chwarter a bydd yn cynnwys pum aelod annibynnol o'r Cyngor a bydd archwilwyr mewnol ac allanol y brifysgol hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd.

   b) Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiadau ac argymhellion ar gyfer gwella systemau rheoli mewnol y brifysgol, ynghyd ag ymatebion y rheolwyr a chynlluniau gweithredu.

   c) Bydd y pwyllgor yn cynghori’r Cyngor ar reoli risgiau a phenodi a thalu’r archwilwyr mewnol ac allanol.

   d) Bydd y pwyllgor yn ystyried dogfennaeth prosesau rheoli risg ac archwilio mewnol y brifysgol, ac yn ystyried y pethau a ddigwyddodd ers diwedd y flwyddyn flaenorol.